Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg

## Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Awst 2019 hyd at 31 Gorffennaf 2020

## Cyflwyniad

Ers 1af Ebrill 2018, mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a ddosbarthwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

Mae'r adroddiad monitro hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch y modd y mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau rhwng 1 Awst 2019 hyd at 31 Gorffennaf 2020.

Sefydlwyd Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol yn 2017 gyda'r bwriad o gefnogi a chynghori staff yng nghyd-destun y Gymraeg ar draws y sefydliad. Swyddogion Rhagoriaith sy'n bennaf gyfrifol am oruchwylio'r modd y cydymffurfir â'r Safonau Iaith yn fewnol ac mae hwythau'n atebol i Brofost Campysau Caerfyrddin a Llambed sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Gymraeg ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cyfnod o dan sylw wedi profi'n gyfnod heriol i'r Brifysgol oherwydd y pandemig, ond mae'r sefydliad wedi parhau i hyrwyddo'r Gymraeg gan annog staff i ddatblygu eu sgiliau ac annog myfyrwyr i ddefnyddio'u Cymraeg.

## Y Brifysgol

Yn ei Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2017-2022 mae'r Brifysgol yn nodi mai ei gweledigaeth yw 'bod yn brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth a wnawn.' Un o'i saith o werthoedd creiddiol yw 'Cymru a'i chymeriad arbennig' gan 'ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.'

Ei gweledigaeth yw bod yn Brifysgol i Gymru gan hyrwyddo ac ymgorffori system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefndir, ac sy'n ysgogi datblygiad economaidd o fewn ei rhanbarth, ar draws Cymru a thu hwnt.

Fel y sefydliad addysg uwch hynaf yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn dathlu ei dau-ganmlwyddiant yn 2022.

Mae'r Brifysgol yn gartref i nifer cynyddol o sefydliadau a busnesau o bwys yng Nghymru, gyda phencadlysoedd Theatr Genedlaethol Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a S4C wedi eu lleoli ar ei champws yng Nghaerfyrddin.

## Y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae hefyd yn fodd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bwriad y Safonau hyn yw:

- darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau ym ymwneud â'r Gymraeg;
- darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

## Cyraeddiadau

- Mae'r Brifysgol wedi darparu hyfforddiant ar y Safonau Iaith i'w holl staff yn unol â'r anghenion sydd wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn sgil trafodaeth fewnol, bydd y Brifysgol yn darparu hyfforddiant i reolwyr ar recriwtio a phenodi yng nghyd-destun sgiliau iaith staff yn ystod y flwyddyn sydd i ddod (Safonau 138, 145, 145A, 146, 146A, 146B, 148, 149,).

- Sefydlwyd Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn a oedd yn cynnwys rheolwyr yn ymwneud â datblygiad y Gymraeg o fewn y Brifysgol er mwyn cytuno ar flaenoriaethau'r Gymraeg yn ehangach. Cyfarfu'r Grŵp hwn yn rheolaidd yn ystod cyfnod y pandemig.

- Darparwyd hyfforddiant i staff derbynfeydd PCYDDS ar gampws Abertawe a Chaerfyrddin. Darparwyd hefyd hyfforddiant i staff derbynfa Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd. Codwyd ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg a rhoddwyd hyfforddiant iddynt am y Safonau Iaith ac yn benodol y safonau yn ymwneud â derbynfeydd ac ateb y ffôn (Safonau 8, 9, 11, 12, 13, 14, 16, 17, 19, 20, 21, 22, 68, 71, 72).

- Darparwyd hyfforddiant hefyd i adran arall o fewn yr Uned Gyllid ar ohebiaeth ac ymwneud y Brifysgol â'r cyhoedd yng nghyd-destun y Gymraeg (Safonau 1-7).

- Bu'r Brifysgol yn rhan o grwpiau trafod myfyrwyr a drefnwyd gan swyddogion y Comisiynydd Iaith. Bu'r swyddogion yn trafod gyda myfyrwyr y Brifysgol a dysgu am eu profiadau fel siaradwyr Cymraeg wrth iddynt geisio derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg.

- Atgoffwyd staff am ganllawiau'r Safonau wrth hyrwyddo diwrnod Hawliau'r Gymraeg.

- Atgoffwyd staff am gyfeiriad e-bost sydd wedi'i greu ar gyfer staff y Brifysgol sy'n dymuno cyngor ynghylch y Gymraeg.

- Cyhoeddwyd targedau i gyd-fynd â Pholisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg. (Safon 105)

- Darparwyd cyngor i amryw o unedau proffesiynol megis yr Uned Gyllid, Uned Gwasanaethau Myfyrwyr, Yr Uned Farchnata, Yr Uned Ymchwil a Datblygu, Y Gofrestrfa a Derbynfeydd y campysau amrywiol.

- Trefnwyd cyrsiau Cymraeg i staff ar draws y campysau ar wahanol lefelau gyda nifer foddhaol yn ymgysylltu gan ystyried cyfyngiadau COVID 19. (Safonau 138, 139)

- Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw hi wedi llwyddo i gyhoeddi'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith yn unol ag amserlen targedau adroddiad blynyddol llynedd. Bu staff yn gweithio ar y modiwl gyda'r bwriad o gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. (Cyhoeddwyd yr e-fodiwl bellach gyda'r Is-Ganghellor yn rhoi cyflwyniad i'w bwysigrwydd ac arwyddocâd.) (Safon 140)

- Er bod campysau'r Brifysgol yn hanesyddol yn amrywio'n ddirfawr yn eu defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, gwelwyd llawer mwy o gysondeb yn sgil cyflwyno'r Safonau a'r hyfforddiant a ddarparwyd.

- Mae'r Uned Gyfieithu yn rhan allweddol o'r isadeiledd sy'n cefnogi'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Byddai'r Gymraeg ar ei cholled heb ddiwydrwydd ac ymrwymiad y tîm bychan hwn o staff. Mae'r Uned wedi mabwysiadu system benodol er mwyn blaenoriaethu gwaith cyfieithu ar draws y Brifysgol yn ystod y cyfnod adrodd.

## 1. Llywodraethiant a Monitro

- Pwyllgor y Gymraeg sy'n gyfrifol am fonitro'r modd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd y Cadeirydd hefyd yn gyfrifol am ddiweddaru'r Senedd ac Is-Bwyllgor Llywodraethiant y Cyngor ynghylch y modd y mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r Safonau. Pwyllgor y Gymraeg sydd hefyd yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, a chaiff hwnnw, yn ei dro, ei gyflwyno i sylw'r Senedd ac Is-Bwyllgor Llywodraethiant y Cyngor. Mae Pwyllgor y Gymraeg yn disodli'r Pwyllgor Materion Cymraeg.

- Yn dilyn ei phenodiad ym mis Rhagfyr 2018, Cydlynydd Tîm Rhagoriaith: Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol, sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth ddyddiol y Brifysgol â'r Safonau. Bydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer holl

staff y sefydliad yng nghyd-destun y Safonau Iaith gan hefyd gefnogi'r disgyblaethau academaidd/unedau proffesiynol o ddydd i ddydd.

- Bydd y Cydlynydd yn darparu adborth rheolaidd ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau i'r Profost (y mae ganddo gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Gymraeg ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg) ac adroddiad llafar i Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg sy'n cwrdd pob tair wythnos. Bydd hefyd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i Bwyllgor y Gymraeg sy'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn.

- Adroddwyd wrth y Senedd ac Is-Bwyllgor Llywodraethiant y Cyngor ynghylch yr un gwyn ffurfiol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd gan gynnwys y datrysiad.

- Sefydlodd y Brifysgol Bwyllgor Monitro'r Safonau Iaith i fonitro cynnydd a chydymffurfiaeth a sicrhau gweithredu. Mae aelodaeth y Brifysgol yn cynnwys staff allweddol o amrywiol adrannau ynghyd â dau aelod allanol. Gwahoddwyd aelod o Gyngor y Brifysgol i gadeirio'r Pwyllgor Monitro.

- Cynhaliwyd cyfarfod buddiol rhwng swyddogion y Brifysgol a swyddogion Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fis Chwefror 2020.

- Mae'r Brifysgol hefyd yn rhoi sylw i Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sy'n tynnu sylw sefydliadau at enghreifftiau o arfer dda, a lle bo angen datblygu trefniadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella profiad y cwsmer. Yn yr un modd, bydd staff priodol yn mynychu seminarau arferion llwyddiannus a drefnir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg lle rhennir arferion da gan sefydliadau ledled Cymru.

## 2. Cydymffurfio

Derbyniodd holl staff y Brifysgol hyfforddiant cychwynnol ar y Safonau Iaith tra darparwyd sesiwn hyfforddi 90 munud ar gyfer tua deugain o arweinwyr Ysgolion ac Unedau Proffesiynol yn pwysleisio gofynion y Safonau a'r cyfrifoldeb sydd arnynt i sicrhau bod eu hadrannau'n cydymffurfio â hwy.

Cyfathrebir â'r gweithlu trwy Fwletin Staff misol y Brifysgol lle atgoffir cydweithwyr o bwysigrwydd cydymffurfio â'r Safonau ac o'r adnoddau a baratowyd yn fewnol i'w cynorthwyo yn y broses o ddelio â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 3. Cwynion

Derbyniodd y Brifysgol un gwyn ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd. Cytunwyd ar ddatrysiad a darparwyd hyfforddiant penodol ar gyfer staff yr uned broffesiynol o dan sylw.

## 4. Sgiliau Cymraeg y rheini a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2020

### (i) Canran y staff academaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

**2020**

| | % Gallu addysgu | % Methu addysgu | % Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Staff Academaidd** | **16%** | **62.7%** | **21.3%** |

### (ii) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a oedd yn gallu siarad Cymraeg

| | **Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl** | **Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl** | **Ddim yn gallu siarad Cymraeg** | **Anhysbys** |
|---|---|---|---|---|
| **Canran** | 21.9% | 23.0% | 40.1% | 15.1% |

**Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg**

Cwblhaodd 30 aelod o staff hyfforddiant yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20 i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg. Hyd at ddiwedd Gorffennaf 2020, roedd 232 o staff hefyd wedi cofrestru ar un neu fwy o'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. O'r 232, roedd 78 wedi cwblhau'r modiwlau i gyd.

O'r cyrsiau a gynhaliwyd ar feysydd eraill, er enghraifft, e-fodiwl Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sesiynau am Microsoft Teams, hyfforddiant deall iechyd a diogelwch, a gweithdy ar effaith defnyddio technoleg ar les, mynychodd 50 o staff sesiynau Cymraeg.

Derbyniodd 12 aelod o staff y gwasanaethau proffesiynol hyfforddiant 'Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer Gwasanaethau Rheng-flaen' yn ystod Tachwedd 2019 a Ionawr 2020.

**Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn neu linyn gwddf 'Iaith Gwaith'**

Anogir holl staff y Brifysgol sy'n siaradwyr Cymraeg ac yn gweithio yn y rheng flaen wrth ddelio â'r cyhoedd i wisgo bathodyn neu linyn gwddf 'Iaith Gwaith'. Er na all gadarnhau yr union ffigwr, mae'r Brifysgol yn hyderus fod canran uchel y Cymry Cymraeg a oedd yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn gwisgo naill ai fathodyn neu linyn gwddf 'Iaith Gwaith' yn ystod y cyfnod adrodd.

**Swyddi newydd a gwag**

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

| **Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu'n ddymunol** | **Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol** | **Nifer y swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** | **Nifer y swyddi a hysbysebwyd lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg** | **Canran y penodiadau Cymraeg i swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** |
|---|---|---|---|---|
| 106 | 83 | 23 | 0 | 100%* |

*100% lle'r oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd. Mewn rhai achosion, nid oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd oherwydd prinder ymgeiswyr yn cwrdd â gofynion y sgiliau iaith Gymraeg hanfodol.

Nid yw'r Brifysgol yn gallu darparu data ar hyn o bryd ar ganran y penodiadau Cymraeg i swyddi a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol.

## 5. Targedau 2019/20

Nodir islaw ddiweddariad ynghylch y modd y cyflawnodd y Brifysgol y targedau a osododd ar gyfer y cyfnod Awst 2019 – Gorffennaf 2020.

| | Targed | Diweddariad |
|---|---|---|
| 1 | Lansio'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith gan sicrhau bod y gweithlu presennol yn ei gwblhau a bod gweithwyr newydd yn gorfod ei gwblhau yn rhan o broses anwytho'r sefydliad. | Oherwydd y pandemig ni fu modd cwblhau'r e-fodiwl o fewn y cyfnod adrodd. Er hynny, fe'i lansiwyd yn ffurfiol gan yr Is-Ganghellor yn Nhymor yr Hydref 2020. |
| 2 | Datblygu Strategaeth Sgiliau Iaith newydd. | Drafftiwyd y Strategaeth yn ystod y cyfnod adrodd a chaiff ei mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod 2020/21. |
| 3 | Casglu a chofnodi data i gydfynd â'r Strategaeth Sgiliau Iaith newydd. | Wedi treialu gydag unedau penodol o staff |
| 4 | Cynyddu niferoedd sy'n dysgu Cymraeg ar bob campws. | Parhaus.<br>Nifer dysgwyr sy wedi cwblhau<br>3 Mynediad Caerfyrddin<br>8 Canolradd Caerfyrddin<br>11 Mynediad Abertawe<br>8 Sylfaen/Canolradd Abertawe |
| 5 | Datblygu'r deilsen ar y fewnwe sy'n darparu gwybodaeth i staff i gynnwys mwy o adnoddau defnyddiol. | Cwblhawyd |
| 6 | Parhau i wella gwefan y Brifysgol o ran y ddarpariaeth Gymraeg. | Er y gwelwyd peth cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud. Yn sgil hyn, mae'r Brifysgol wedi penderfynu adolygu ei gwefan sefydliadol yn ystod 2020/21. |
| 7 | Cynyddu'r niferoedd sy'n cofrestru ac yn cwblhau cyrsiau ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | Parhaus. Gweler y data yn yr Adroddiad Monitro |
| 8 | Sicrhau bod y Pwyllgor Monitro'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn gan adrodd i'r Pwyllgor Materion Cymraeg. | Sefydlwyd y Pwyllgor Monitro ar ei newydd wedd yn ystod 2020/21 ac mae wedi cwrdd ddwywaith yn ystod y cyfnod Mehefin 2020 – Ionawr 2021. |
| 9 | Darparu hyfforddiant ategol ar gyfer dwy uned broffesiynol o'r newydd. | Cwblhawyd |
| 10 | Mapio cyraeddiadau'r Brifysgol ar draws y tri phrif gampws yn erbyn yr holl Safonau Iaith. | Gohiriwyd y dasg hon tan 2020/21 yn sgil y pandemig. |

## 6. Targedau 2020/21

| | Targed | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. | Y Brifysgol i fabwysiadu'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn ffurfiol | Profost / Cyfarwyddydd yr Uned Adnoddau Dynol | Ebrill 2021 |
| 2. | Casglu data yn defnyddio'r lefelau newydd fel gwaelodlin | Cyfarwyddydd Rhagoriaith | Mai 2021 |
| 3. | Darparu hyfforddiant i reolwyr ym maes recriwtio a phenodi yng nghyd-destun y Gymraeg | Cyfarwyddydd Rhagoriaith | Mai 2021 |
| 4. | Cyhoeddi'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith a sicrhau bod 50% o staff yn cwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd Gorffennaf 2021 | Cyfarwyddydd Rhagoriaith a Rheolwr Dysgu a Datblygu | Hydref 2020 |
| 5. | Llunio polisi sefydliadol ar effaith penderfyniadau ar y Gymraeg | Cyfarwyddydd Rhagoriaith | Mehefin 2021 |
| 6. | Cynnal tair ymgyrch benodol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg | Cyfarwyddydd Rhagoriaith | Yn ystod 2020 / 2021 |
| 7. | Sicrhau bod y wefan sefydliadol yn cydymffurfio â'r Safonau priodol | Dirprwy Is-ganghellor, Cyfarwyddydd yr Uned Farchnata a Chyfarwyddydd Rhagoriaith | Gorffennaf 2021 |
| 8. | Sefydlu prosesau recriwtio staff a fydd yn cydymffurfio â'r Safonau priodol | Cyfarwyddydd yr Uned Adnoddau Dynol | Ebrill – Gorffennaf 2021 |
| 9. | Sicrhau cynnydd o 10% yn nifer y gweithlu sy'n dysgu Cymraeg | Cyfarwyddydd Rhagoriaith a Rheolwr Dysgu a Datblygu | Gorffennaf 2021 |
| 10. | Sicrhau cynnydd o 10% yn nifer y penodiadau Cymraeg o fewn y Brifysgol | Uwch-Gyfarwyddiaeth ac arweinwyr unedau | Gorffennaf 2021 |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Brifysgol trwy anfon ebost at iaithgymraeg@pcydds.ac.uk